

Chris Rowsell
Rheolwr Rheoleiddio
New Broadcasting House
Portland Place
Llundain
W1A 1AA

Kevin Bakhurst
Cyfarwyddwr Grŵp, Cynnwys
Darlledu ac Ar-lein

20 Gorffennaf 2021

Annwyl Chris,

Diwedd yr asesiad cychwynnol o'r sianel deledu BBC Three arfaethedig

Ar 24 Mehefin 2021, cyhoeddodd y BBC ei [chynnig](#) i ail-lansio BBC Three fel sianel deledu. Ar yr un pryd, bu i ni ddechrau ein hadolygiad i benderfynu a yw cynlluniau'r BBC yn faterol ac a ddylid caniatáu iddynt symud ymlaen.

Diben y llythyr hwn yw i'ch hysbysu ein bod wedi cwblhau cam cyntaf ein hadolygiad ac wedi dod i'r casgliad bod y cynnig yn cynrychioli newid materol sy'n gofyn am asesiad pellach gan Ofcom. Heddiw byddwn yn lansio asesiad cystadleuaeth llawn ('BCA'), ac rydym yn esbonio ein penderfyniad isod.

Cefndir

Cenhadaeth y BBC yw gweithredu er budd y cyhoedd, gan wasanaethu pob cynulleidfa trwy ddarparu allbwn a gwasanaethau diduedd, nodedig ac uchel eu hansawdd sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn difyrru. I sicrhau ei bod yn parhau i ddarparu rhaglenni sy'n cyflawni ei chenhadaeth, mae'n bosib y bydd y BBC yn ceisio gwneud newidiadau i'w gweithgareddau presennol neu ddatblygu gwasanaethau newydd i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd.

Efallai y bydd rhai newidiadau'n fach; er enghraifft, penderfyniadau golygyddol o ddydd i ddydd am raglenni unigol, neu eu hamserlennu. Fodd bynnag, fel sefydliad mawr a ariennir gan y cyhoedd, gallai newidiadau eraill y byddai'r BBC efallai yn dymuno eu gwneud, megis cyflwyno Gwasanaethau Cyhoeddus newydd yn y DU, gael effaith arwyddocaol ar gystadleuaeth yn y farchnad cyfryngau ehangach.

O dan delerau'r Cytundeb,¹ gall y BBC wneud 'newid materol' i'w Gwasanaethau Cyhoeddus yn y DU dim ond os daw'r BBC i'r casgliad bod unrhyw gynnig o'r fath yn bodloni Prawf Lles y Cyhoedd ('PIT'). Mae'r PIT yn cael ei fodloni wedyn dim ond os bydd Bwrdd y BBC yn penderfynu:

- a) bod y newid arfaethedig yn cyfrannu at gyflawni cenhadaeth y BBC a hyrwyddo o leiaf un o'r dibenion cyhoeddus;

¹ [Siarter Frenhinol a Fframwaith Cytundeb y BBC](#). Cyfeirir at y rhain fel y "Siarter" a'r "Cytundeb".

- b) y cymerwyd camau rhesymol i sicrhau na fydd y cynnig yn cael unrhyw effaith andwyol diangen ar gystadleuaeth deg ac effeithiol; a
- c) bod gwerth cyhoeddus y newid arfaethedig yn cyfiawnhau unrhyw effaith andwyol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.

Penderfynodd y BBC fod ei chynnig i ail-lansio BBC Three fel sianel deledu'n gyfystyr â newid materol i'w gwasanaethau gan y bydd yn Wasanaeth Cyhoeddus newydd yn y DU.² Fe gynhaliodd PIT yng ngwanwyn 2021 a chyhoeddwyd ei ganfyddiadau, ynghyd â thystiolaeth gefnogol, ar 24 Mehefin 2021, gan nodi bod Bwrdd y BBC yn credu y bodlonwyd y PIT.³

Y cynnig gan y BBC

Mae'r BBC yn bwriadu ail-lansio BBC Three fel sianel deledu ym mis Ionawr 2022 i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd 16-34 oed sy'n gwyltio teledu darlledu ar sail reolaidd ond sy'n ddefnyddwyr ysgafn teledu'r BBC yn well. Mae'r BBC yn nodi bod y gwylwyr hyn yn tueddu i fod o gefndiroedd cymdeithasol-economaidd C2DE, sy'n byw y tu allan i Lundain a de-ddwyrain Lloegr yn ogystal â'r rhai na allant ffrydio cynnwys yn hawdd.

Mae'r BBC yn bwriadu i BBC Three ddarlledu rhwng 7pm a 4am bob dydd. Byddai'r sianel ar gael ar y prif lwyfannau daearol, lloeren a chebl ym mhob un o wledydd y DU.

Mae cynllun y BBC ar gyfer y sianel yn cynnig:

- Cyllideb cynnwys flynyddol o £72.5m. Dyma'r un gyllideb cynnwys ag y byddai ar gyfer BBC Three heb lansio'r sianel ddarlledu.
- Cymysgedd o genres, gan gynnwys ffeithiol, adloniant, drama, materion cyfoes y DU a rhyngwladol, comedi, chwaraeon, cerddoriaeth, ffilmiau a chaffaeliadau.
- Bwletin newyddion bob nos.
- Bydd cynyrchiadau gwreiddiol y BBC (h.y. rhaglenni a gomisiynir gan y BBC ond gan gynnwys darllediadau gwreiddiol ac ailddarllediadau) yn cyfrif am 70% o'r oriau darlledu. Mae'n cynnig hefyd y bydd dros 300 awr o raglenni a ddarlledir am y tro cyntaf bob blwyddyn, gan gyfrif am 24% o oriau darlledu rhwng 7pm a hanner nos.

Fel rhan o'r cynnig, mae'r BBC hefyd wedi nodi'r canlynol:

- Bydd BBC Three yn darlledu rhaglennu cyn y trothwy a fydd yn apelio at gynulleidfaoedd 13-15 oed a 16-34 oed.
- Bydd dau draean o'r gwariant ehangach ar raglenni BBC Three y tu allan i Lundain.
- Fel sianel gwasanaeth cyhoeddus newydd, mae'r BBC yn cynnig y dylai Ofcom mandadu amlygrwydd ar gyfer y sianel BBC Three newydd o fewn 24 safle uchaf y canllawiau rhaglenni electronig ('EPG').

² [Sianel BBC Three newydd: Ymgynghoriad Prawf Lles y Cyhoedd](#), 5 Mawrth 2021, adran 5.1.1

³ [Sianel BBC Three newydd: Ymgynghoriad Prawf Lles y Cyhoedd](#), 5 Mawrth 2021

Mae'r BBC yn bwriadu lansio'r sianel yn SD a HD ac eithrio yn Yr Alban lle defnyddir capasiti ar gyfer sianel BBC Scotland ac yng Nghymru lle mae'r capasiti HD yn cael ei ddefnyddio gan S4C. Ar bob llwyfan arall, byddai'r sianel yn lansio yn SD a HD. I gynnwys BBC Three o fewn y capasiti dosbarthu presennol mae'r BBC yn bwriadu cyfyngu ar oriau gweithredu CBBC fel bod darllediadau'n dod i ben am 7pm yn lle 9pm. Nid yw'r cynnig yn effeithio ar amodau ein Trwydded Weithredu ar gyfer CBBC.

Rôl Ofcom

Os daw Bwrdd y BBC i'r casgliad bod PIT wedi cael ei fodloni, mae'n rhaid i Ofcom gyflawni ei asesiad ei hun o'r cynnig cyn y gellir rhoi'r newid ar waith. Mae'r Cytundeb yn rhannu'r gwaith hwn i ddau gam. Yn ystod y cam cychwynnol, y mae'n rhaid ei gwblhau o fewn cyfnod o chwe wythnos, mae'n ofynnol i Ofcom:

- a) gadarnhau a yw'r cynnig gan y BBC yn faterol; ac os ydy
- b) penderfynu ar ba ffurf y dylai ein hasesiad manwl fod yn ystod yr ail gam.

I'n helpu ni i wneud hyn, ar 24 Mehefin 2021 bu i ni gyhoeddi [Gwahoddiad i Roi Sylwadau](#): a nododd i ni fwriadu canfod bod y cynnig gan y BBC yn faterol. Bu i ni ddweud hefyd y byddem yn ystyried, yn ystod y cam cychwynnol hwn, a oedd PIT y BBC yn cynnwys digon o wybodaeth i alluogi ni i gwblhau asesiad manylach yng ngham dau a pha un a ddylai ein hasesiad fod ar ffurf Asesiad Cystadleuaeth (BCA) neu Asesiad Byrrach. Bu i ni esbonio, yn y cyd-destun hwn, ein bod ni o'r farn i ymgymryd â BCA llawn gan fod y cynnig yn ymwneud â nifer o bartion â buddiant a oedd wedi codi ystod o faterion cystadleuaeth posib. Bu i ni wahodd sylwadau ar ein cynigion a gofyn i randdeiliaid a phartion sydd â diddordeb ddarparu gwybodaeth bellach i ni yn esbonio sut y gallai lansio sianel BBC Three newydd effeithio arnynt.

Yr hyn a ddywedodd rhanddeiliaid wrthym

Bu i ni dderbyn ymatebion gan 14 o randdeiliaid mewn ymateb i'n [Gwahoddiad i Roi Sylwadau](#).⁴

Roedd llawer o'r ymatebwyr yn croesawu, neu heb wrthwynebu, cynnig y BBC i ail-lansio BBC Three fel sianel. Er hynny, cododd ymatebwyr faterion gan gynnwys:

- pryderon y gallai'r cynnig gan y BBC gael effaith negyddol ar ddarlledwyr eraill petai BBC Three yn cymryd eu cyfran o wylwyr;
- pryderon ynglŷn ag effaith gwerth cyhoeddus y cynnig o ystyried y tueddiadau mewn arferion gwyllo pobl ifanc ac argaeledd sianeli masnachol tebyg;
- a yw buddion gwerth cyhoeddus y sianel yn cyfiawnhau'r aflonyddwch yr oeddent yn ei ddisgwyl o ganlyniad i gynnwys BBC Three o fewn y canllaw rhaglenni electronig;
- y dylai'r gyfran arfaethedig o raglenni gwreiddiol sy'n tarddu o'r DU a rhaglenni gwreiddiol a ddarlledir am y tro cyntaf sy'n tarddu o'r DU fod yn uwch; a
- chwestiynau sut y byddai'r buddion i'r sector cynhyrchu'n cael eu gwireddu.

Er na chodwyd unrhyw bryderon sylweddol gyda ni ynglŷn â sut yr oedd y BBC wedi cynnal ei PIT, nododd rhai ymatebwyr nad oedd ganddynt fynediad i'r dystiolaeth a oedd yn y PIT cyhoeddedig

⁴Mae'r ymatebion i'n [Gwahoddiad i Roi Sylwadau](#) wedi'u cyhoeddi ar ein gwefan [yma](#).

terfynol yn ystod ymgynghoriad y BBC, a thybiodd aelodau'r cyhoedd a ymatebodd i'n hymgyngoriad y gallai'r BBC fod wedi cyhoeddi ei hymgyngoriad yn ehangach.

Cytunodd yr holl ymatebwyr fod y cynnig yn faterol a bod angen asesiad pellach. Er i'r mwyafrif gytuno bod BCA yn briodol, awgrymodd tri ymatebwr gynnal asesiad byrrach. Awgrymodd un ohonynt y dylid ffocysu asesiad byrrach ar y pryderon cyhoeddedig a godwyd gan randdeiliaid i ymgynghoriad y BBC.

Materoldeb y cynnig

Mae'n rhaid i Ofcom ymgymryd ag asesiad cystadleuaeth os ydym yn ystyried bod y cynnig gan y BBC yn newid materol i Wasanaethau Cyhoeddus y DU. Mae'r Cytundeb yn esbonio'n glir bod cyflawni unrhyw weithgaredd newydd fel Gwasanaeth Cyhoeddus newydd yn y DU yn newid materol.⁵

Gan ddilyn ein hadolygiad o'r cynnig gan y BBC fel a ddisgrifir yn y PIT, yn ogystal â'r mewnbwn a dderbyniwyd gennym gan randdeiliaid, rydym wedi'n bodloni bod y cynnig gan y BBC yn gyfystyr â Gwasanaeth Cyhoeddus newydd yn y DU, gan na fyddai ailgyflwyno BBC Three fel sianel ddarlledu'n ffitio o fewn y gwasanaethau sydd eisoes yn bodoli yn y Cytundeb.⁶ Ar hyn o bryd mae'r cynnwys BBC Three yn rhan o wasanaeth cyhoeddus ar-lein y BBC; ar gael i gynulleidfa oedd trwy BBC iPlayer.⁷ Gan hynny rydym wedi dod i'r casgliad bod hwn yn newid materol i Wasanaethau Cyhoeddus yn y DU.

Y cwmpas i asesu ymhellach

O dan delerau'r Cytundeb, mae'n rhaid i'n hasesiad fod ar ffurf naill ai BCA neu Asesiad Byrrach. Yn ein dogfen arweiniad *Assessing the impact of proposed changes to the BBC's public service activities*, rydym yn esbonio bod:

- a) BCA yn fwy tebygol o fod yn briodol "pan fydd cynnig yn codi materion sylweddol, cymhleth a/neu arbennig o ddadleuol, sydd o bosib yn ymwneud â nifer o bartïon â diddordeb a ffyrdd y gallai fod effaith andwyol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol"; tra bod,
- b) Asesiad Byrrach yn debygol "os bydd ystod fwy cul o faterion i'w hystyried", er enghraifft os byddwn yn ystyried bod prawf lles y cyhoedd y BBC "yn ymdrin yn ddigonol â phob mater (neu'r mwyafrif ohonynt)."

Yn yr arweiniad hwn rydym yn nodi ffactorau yr ydym yn disgwyl eu cymryd i ystyriaeth wrth benderfynu pa asesiad oedd fwyaf priodol, gan gynnwys:

- trylwyredd, ansawdd a chydbwysedd PIT y BBC;
- y tebygolrwydd o ganlyniad ar wahân i gliriad diamod;
- p'un a oes elfen o'r cynnig all gael ei gwahanu a fydd yn destun pryder, tra bod elfennau eraill yn peri ychydig yn unig o bryderon; a
- chymesurolddeb yr adnoddau sydd eu hangen.

⁵Mae'r Cytundeb yn diffinio newid materol fel cynnwys cyflawni unrhyw weithgaredd newydd fel Gwasanaeth Cyhoeddus newydd yn y DU - Cymal 7(7)(a).

⁶Y Cytundeb, Atodlen 1, paragraff 2(1).

⁷Y Cytundeb, Atodlen 1, paragraff 2(4).

Rydym yn cydnabod y gallai'r cynnig gan y BBC arwain at ddeilliannau cadarnhaol i gynulleidfaoedd trwy ehangu argaeledd cynnwys BBC Three i gynulleidfaoedd iau y mae'r BBC wedi wynebu anhawster wrth eu denu a'u cadw. Fodd bynnag, mae ein hasesiad cychwynol o'r cynnig gan y BBC hefyd wedi amlygu rhai effeithiau posib ar y farchnad a meysydd y tybiwn ei fod yn briodol eu hystyried ymhellach mewn BCA llawn. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt:

- y risg y bydd y gwasanaeth newydd yn effeithio ar refeniw a phroffidioldeb darlledwyr eraill, gan o bosib amharu ar eu parodrwydd i fuddsoddi ac arloesi os bydd cynulleidfaoedd yn newid i'r sianel BBC Three newydd;
- y potensial am wyllo BBC iPlayer yn gynyddol os bydd y sianel BBC Three newydd yn symblu gwell defnydd o BBC iPlayer;
- yr effaith bosib ar ddarlledwyr o orfod symud i lawr yr EPG gan ddibynnu ar y lefel amlygrwydd briodol yr ydym yn ystyried y mae ei hangen ar y sianel BBC Three (gweler isod); ac
- ystyriaeth o'r gwerth cyhoeddus ychwanegol a gynhrychir gan y cynnig gan y BBC at werth cyhoeddus cyffredinol cynulleidfaoedd, ac yn benodol y rhai 16-34 oed.

Rydym wedi ein bodloni y rhoddwyd cyfle priodol i bartion efallai yr effeithir arnynt roi sylwadau ar PIT y BBC, er i ni ystyried mai dim ond gwybodaeth gyfyngedig a roddwyd mewn rhai meysydd o ymgynghoriad y BBC. Rydym wedi ein bodloni hefyd bod y BBC wedi cyflawni ymchwil farchnad a dadansoddiad economaidd ansoddol a meintiol cynhwysfawr i gefnogi ei hasesiad o'i chynigion.

Adolygiad o'r Cod EPG

Mae [Cod ymarfer Ofcom ar ganllawiau rhaglenni electronig](#) (y 'cod EPG') yn pennu rheolau mewn perthynas â chanllawiau rhaglenni electronig gan gynnwys ble y mae'n rhaid i sianeli penodol ("Sianeli Dynodedig") ymddangos yn y canllawiau hyn. Sianeli Dynodedig yw sianeli sydd â hawl i safle amlwg mewn canllawiau rhaglenni electronig o dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ("y Ddeddf").⁸ Os bydd sianel ddarlledu newydd yn cael ei lansio gan y BBC, fe fyddai'n Sianel Ddynodedig ac â hawl i safle amlwg o dan y Ddeddf.⁹ Gan hynny, os byddwn yn pennu dros dro y dylid caniatáu i'r BBC symud ymlaen i lansio BBC Three fel sianel deledu, bydd angen i Ofcom ystyried pa lefel briodol o amlygrwydd y dylid ei rhoi i BBC Three, a byddem yn anelu at ymgynghori ar unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r cod EPG ar yr un pryd ag ymgynghori ar benderfyniad dros dro ein BCA.

Trwydded Weithredu'r BBC

Mae'r Cytundeb yn gosod rhwymedigaethau ar Ofcom i bennu amodau [Trwydded Weithredu](#) penodol ar gyfer Gwasanaeth Cyhoeddus y BBC yn y DU,¹⁰ ac yn rhoi'r disgrisiwn i ni osod y cyfryw amodau rheoleiddio pellach y tybiwn eu bod yn briodol i fynnu i'r BBC, wrth ddarparu'r Gwasanaethau Cyhoeddus yn y DU, gyflawni ei chenhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus, a sicrhau y gwasanaethir cynulleidfaoedd yng ngwledydd y DU yn dda. Os byddwn yn pennu dros dro y dylid caniatáu i'r BBC lansio BBC Three fel sianel deledu, byddwn hefyd yn ystyried a yw unrhyw

⁸ Adran 310(2) Deddf Cyfathrebiadau 2003.

⁹ Adran 310(4) Deddf Cyfathrebiadau 2003.


¹⁰ [Y Cytundeb](#), cymal 13 ac Atodlen 2.

newidiadau i'r Drwydded Weithredu'n briodol, ac yn ymgynghori ar ein cynigion mewn perthynas â'r Drwydded Weithredu ar yr un pryd ag ymgynghori ar ein penderfyniad dros dro.

Camau nesaf

O dan y Cytundeb, yn awr mae gan Ofcom chwe mis i gynnal BCA i'r sianel deledu BBC Three arfaethedig. Byddwn yn ymgymryd â dadansoddiad o'r cynnig gan y BBC ac yn ymgynghori ar benderfyniad dros dro. Ar ddiwedd y broses, byddwn yn cyhoeddi penderfyniad terfynol.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Ke: Bakhurst". The signature is written in a cursive style and is positioned within a light grey, dotted rectangular box.

Kevin Bakhurst